**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a
Materion Gwledig

26 Medi 2016

Annwyl Lesley

**Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) 2016**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf 2016 ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas â Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016. Trafododd y Pwyllgor eich llythyr yn ein cyfarfod ar 12 Medi 2016.

Ar yr achlysur hwn, rydym yn fodlon nad yw Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Fodd bynnag, rydym yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi defnyddio offeryn statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Er bod hyn yn rhywbeth a ganiateir o dan y rhiant Ddeddf, hoffem gymryd y cyfle hwn i bwysleisio barn y Pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu bod yn rhaid i is-ddeddfwriaeth sy'n caniatáu diwygio deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol o leiaf.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Mae hwn yn bwynt pwysig o egwyddor y gallech dynnu sylw Llywodraeth y DU ato, ac rydym yn bwriadu monitro hyn drwy gydol y Pumed Cynulliad mewn perthynas â Biliau Llywodraeth Cymru. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ac at Arweinydd y Tŷ.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.